

*Sylwer os gwelwch yn dda: Mae'r gwaith hyn eisoes wedi ei gyflwyno i Turnitin.

Cyflwyniad

Amlinelliad o'r cynnwys a chyd-destun yr ymchwil

Crynodeb byr o'r offer ymchwil a rhagdybiaeth

Bwriad yr aseiniad yw dylunio a chynnal astudiaeth ymchwil ar raddfa fach, gan werthuso'r offer ymchwil a ddewiswyd mewn dyfnder a dadansoddi'r data'n fanwl. Yn ogystal, ystyrir sut bydd canlyniadau'r ymchwil a'r broses ymchwilio yn effeithio ar fy ymarfer dysgu proffesiynol. Gan fod Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn rhan ganolog i Gwricwlwm i Gymru ffocusir ar un agwedd yn benodol. O fewn grŵp penderfynwyd ar gwestiynu fel yr agwedd o AagD i ffocysu arno, oherwydd mae cwestiynu yn strategaeth asesu gyffredin iawn. Ymhellach, gall gofyn cwestiynau o ansawdd uchel arwain at atebion o safon uchel a siarad safonol sy'n cyfrannu tuag at ddatblygiad meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2010). Dewiswyd y cwestiwn ymchwil, 'beth yw barn athrawon ar ddefnyddio cwestiynu fel strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu gyda dysgwyr CA2?' Bwriadir cynnal cyfweiliad byr a dosbarthu holiaduron i athrawon gan ddefnyddio'r 'Agwedd Mosäig' (Clark, 2005) er mwyn casglu eu barn am gwestiynu. Yn nŵl Llywodraeth Cymru (2010) AagD yw broses o ddarganfod lle mae disgybl wedi'i gyrraedd o fewn continwrm dysgu, darganfod lle mae angen gwelliant, a'r dull gorau i gyrraedd ei botensial. Cytuna Dylan Wiliam (dyfynnwyd yn Education Scotland, 2016), bod asesu ffurfiannol yn bwysig oherwydd mae'n galluogi i athrawon defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad y dysgwr er mwyn llywio'r dysgu ac addasu gwersi'r dyfodol er eu lles. Mae tair prif swyddogaeth gan asesu sef cefnogi dysgwyr yn barhaus, pennu cynnydd dros amser a deall cynnydd disgyblion er mwyn myfyrio ar arferion (Addysg Cymru, 2020). Yn olaf, rhagdybir y bydd y mwyafrif o athrawon o blaid AagD a hefyd bydd y mwyafrif yn defnyddio cwestiynu'n ddyddiol heb sylweddoli.

Adolygiad Llenyddiaeth

Cyflwyniad a chyflwyno'r agwedd ddewisol o AagD

Bwriedir diffinio beth yw AagD ac edrych yn benodol ar cwestiynu. Awgryma Lynch (2016) bod asesu'n broses o gasglu a defnyddio gwybodaeth am gyflawniad plentyn. Dywedir yn aml fod dau wahanol fath o asesu; crynodol sef gwirio'r hyn a ddysgwyd ac asesu ffurfiannol sef defnyddio asesiad i wella'r dysgu (Zook, 2016). Dadl debyg sydd gan Dauncey (2017), defnyddir asesu parhaus

Trafodaeth fanylach ar yr elfen ddewisol o AagD (e.e. cwestiynu)

Cyfeiriadau at waith ymchwil pwysig yn y maes; awduron allweddol, safbwyntiau gwahanol

Nodir y gwahanol safbwyntiau am gwestiynu fel modd o AagD yn yr adran yma. Allan o'r 4 elfen o AagD sonia Lywodraeth Cymru (2010) bod cwestiynu yn y grym tu ôl i ddatblygu meddwl ac asesu yn yr ystafell ddosbarth. Cwestiynu yw un o'r strategaethau allweddol a ddefnyddir gan athrawon i ddarganfod yr hyn mae disgyblion eisoes gwybod, yn sylweddoli'r bylchau mewn gwybodaeth ac yn sgaffaldio datblygiad eu dealltwriaeth i gau'r bwlch rhwng yr hyn y maent yn ei wybod a'u targedau (Hall, 2016). Nid yw cwestiynu'n ymwneud â gwirio'r atebion yn unig, ond yn fwy pwysig ei bwrpas yw gwrandao ar atebion a gynigwyd gan y disgyblion ac mae'n gyfle iddyn nhw fynegi ei meddyliau (Llywodraeth Cymru, 2010). Pwysleisa Llywodraeth Cymru (2010) a Hall (2016) bod nifer o fanteision i gwestiynu yn y dosbarth, megis gofyn cwestiynau o lefel uchel yn ysgogi disgyblion i archwilio syniadau, creu cysylltiadau a'i helpu i weld 'darlun mawr' y dysgu. Mantais arall yw bod modd rhoi adborth ar unwaith i ddisgyblion ac asesu'n syth (Hall, 2016). Ymhellach, yn ôl Clarke (2001) gofynnir cwestiynau syml i helpu disgyblion ~~hunanasesu a dangosir welliant mawr mewn gwaith~~. Gall yr athro defnyddio'r atebion i siapia gwersi'r dyfodol, trwy gynnwys plant yn y proses cynllunio mae'n cynyddu eu diddordeb a chymhelliant. (Clarke, 2020). Ymhellach, maent yn helpu disgyblion i ddatblygu eu ffordd o feddwl o'r math concrit a ffeithiol i ffordd ddadansoddol a gwerthusol, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach a meddwl mwy soffistigedig (Clarke, 2020).

Ar y llaw arall, mae heriau i gwestiynu fel strategaeth AagD. Y ffordd fwyaf cyffredin o ryngweithio rhwng disgyblion ac athrawon yw gofyn cwestiynau, er hyn awgrymir ymchwil bod y cwestiynau

Methodoleg

Trosolwg o gynnwys y bennod ac esboniad o'r fethodoleg.

Cyfiawnhau a gwerthuso'n feirniadol eich offer ymchwil, e.e. holiadur

Bwriedir trafod y fethodoleg ac egwyddorion moeseg yn yr adran hon. Penderfynwyd selio'r fethodoleg ar yr 'Agwedd Mosaig' (Clark, 2005). Mae'r Agwedd Mosaig yn cyfuno'r dulliau o arsylwi a chyfweld gyda chyflwyno offer cyfranogol i gael dealltwriaeth ddyfnach o safbwyntiau plant a chanfod eu lleisiau gwahanol (Clark, 2005). Dewiswyd yr enw i gynrychioli cyfuno gwahanol safbwyntiau i greu delwedd o fyd plant fel unigolion ac ar y cyd (Clark, 2005). Defnyddiwyd holiadur a chyfweliad fel dulliau ymchwilio er mwyn casglu'r data ar gyfer ymateb y cwestiwn ymchwil.

Penderfynwyd defnyddio holiadur er mwyn cael gorolwg o ganfyddiadau athrawon a staff ar ddefnyddio cwestiynu fel strategaeth AagD gyda dysgwyr CA2. Mae'n wybodus fod holiaduron yn ffordd boblogaidd o gasglu data gan ei bod yn addas ar gyfer amryw o sefyllfaoedd a phynciau, ac mae modd cynnal ar raddfa fach neu fawr (Munn a Drever, 1990). Un cryfder o ddefnyddio holiadur yw ei bod yn ddefnydd effeithlon o amser; cymerir munudau i gwblhau, dosbarthir yn gyflym, derbynnir ymatebion yn glori (Debois, 2019). Serch hyn, mae cyfyngiadau i holiaduron; gall pobl peidio cymryd o ddifrif neu rhuthro trwy'r holiadur, sydd felly'n darparu atebion anghywir (Cohen a Manion, 2007). Ymhellach, os nad yw cyfranogwr yn deall cwestiwn gall y cyfwelydd ei egluro, ond nad yw hynny'n bosibl wrth gwblhau holiadur sy'n gallu arwain at atebion camarweiniol (Debois 2019). Yn ogystal â hyn, nad yw'n bosibl gwerthuso iaith corfforol neu deall teimladau trwy ddarllen holiadur yn cymharu â chynnal cyfweliad lle mae'r cyfranogwr o'ch flaen (Cohen a Manion,

Cyfiawnhau a gwerthuso'n feirniadol eich offer ymchwil, e.e. cyfweliad

[Cofiwch nodi gwybodaeth am y sampl – nifer y cyfranogwyr]

Dull arall a ddefnyddiwyd i gasglu data oedd cyfweliad. Un o gryfderau cynnal cyfweliad yw bod modd casglu gwybodaeth fanwl trwy ofyn cwestiynau agored (Adams, 2015). Yn amlwg, mae'n ffordd bwerus i gael mewnwelediad i faterion addysgol wrth wrando ar brofiad yr unigolyn sy'n deall y mater sy'n cael ei drafod (Seidman, 2006). Mae cyfweld yn ddefnyddiol, oherwydd gall pobl defnyddio iaith i drafod ac ehangu ei atebion yn lle teipio neu ysgrifennu (Seidman, 2006). Ar y llaw arall, cymera cyfweliadau llawer o amser ac weithiau'n mae'n gostus. Dywed Seidman (2006) bod llawer o waith paratoi o flaenllaw, megis; gysyniadau'r prosiect, cysylltu â chyfranogwyr, trawsgrifio'r data a rhannu'r canfyddiadau. Mae'n bwysig cofio bod angen meddwl am gwestiynau o safon a phernasedd hefyd (Adams, 2015). Anfantais cyfweliad weithiau yw nad yw'n bosibl caniatu anhysbysrwydd bob amser, yn enwedig os mai'r ymchwilydd sy'n cynnal y cyfweliadau.

Trafodaeth ar faterion moesegol

[Cofiwch wneud cysylltiadau yma gyda'ch ffurflen foeseg yn yr Atodiad]**

Awgryma BERA (2018) dylai ymchwilydd weithredu'n foeseogol tuag at unrhyw un sy'n ymwneud â'r ymchwil. Dylai unigolion gael eu trin yn deg, â pharch, sensitif a rhyddid rhag rhagfarn (BERA, 2018). Ymhellach, ffactor bwysig wrth ymchwilio yw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, mae disgwyliad i bopeth fod yn anhysbys ac nad oes hawl rhannu gwybodaeth bersonol sy'n gallu adnabod y cyfranogwyr (BERA, 2018). Disgwylir i gael cydsyniad gwybodus o'r cyfranogwyr ar ddechrau'r astudiaeth, ac y bydd yr ymchwilydd yn parhau i fod yn agored i'r posibilrwydd bydd y cyfranogwyr yn dymuno, am unrhyw reswm ac ar unrhyw adeg, i dynnu eu caniatâd yn ôl (BERA, 2018). Ar gyfer disgyblion o dan 18 mae angen caniatâd rhiant a thrafodaeth gyda'r plentyn i weld os ydyn nhw'n fodlon cymryd rhan yn hanfodol hefyd (BERA, 2018). Mynna BERA (2018), dylai ymchwilydd sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall pam mae angen eu cyfranogiad, beth y gofynnir iddynt ei wneud, beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y maent yn ei darparu a defnyddir gan bwy.

***Yn yr adran hon, bydd angen i chi gyfeirio at gyfyngiadau eich methodoleg, gan awgrymu sut y bydddech yn gallu cryfhau'r fethodoleg pe bydddech yn gorfod ail-gynnal yr ymchwil (e.e. cynyddu nifer y cyfranogwyr, cyfweld plant, arsylwi'r dysgwyr, ayyb.

Canlyniadau a thrafodaeth

Cyflwyniad yn nodi trosolwg o'r cynnwys

Manylion am y broses o gyflwyno a dadansoddi'r data gan wneud cysylltiadau gyda'r Atodiad

Trafod y canlyniadau gan wneud cysylltiadau gyda'r Adolygiad Llenyddiaeth

Bwriedir trafod y data a gasglwyd a hefyd effeithiolrwydd yr offer ymchwilio. Y cwestiwn ymchwil yw; 'beth yw barn athrawon ar ddefnyddio cwestiynu fel strategaeth AagD gyda dysgwyr CA2?'. Cafwyd cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol. Data ansoddol yw lle mae'r ymchwilydd yn gofyn am brofiadau'r cyfranogwr (Llywodraeth Cymru, 2015). Casglwyd data meintiol trwy gyfrifo a mesur data (Llywodraeth Cymru, 2015).

Yn gyntaf, trafodir canlyniadau'r cyfweiliad. Wrth ddarllen y trawsgrifiad wnes i godio'r data yn ôl y themâu; strategaethau, cryfderau a heriau (gweler atodiad 6). Pwrpas codio yw trefnu'r data i werthuso'r ymatebion (NFER, 2013). Yn yr un modd, er mae'r trawsgrifiad yn cynnwys data diddorol, ni fydd y cyfan yn berthnasol, felly mae codio yn fodd o wahanu'r wybodaeth (NFER, 2013).

Sylweddolwyd yr un themâu yn y cyfweiliad a holiadur. Nodwyd cryfderau cwestiynu fel modd o AagD gan yr athrawon. Yn gyffredinol y sgôr effeithiolrwydd cwestiynu oedd 9.5/10, felly'n amlwg ystyriwyd cwestiynu fel modd o asesu effeithion iawn. Dywedwyd yn ystod y cyfweiliad bod cwestiynu'n ddefnyddiol iawn ar lawr y dosbarth, a defnyddir yn naturiol ac yn ddyddiol oherwydd mae'n fodd syml ond effeithiol i asesu plant yn syth. Trafodwyd y cryfderau o ddefnyddio cwestiynau caeedig sef gwirio cof y dosbarth a sicrhau ei dealltwriaeth. Cytuna Cotton (2001, dyfynnwyd gan Simmonds, 2017), bod defnyddio cwestiynau caeedig i adolygu dysgu blaenorol yn gryfder i gwestiynu. Ar y llaw arall, darparir cwestiynau agored y rhyddid i blant feddwl a mynegi eu barn,

Cofiwch bod angen gwneud cyswllt yma gyda'r Atodiad, gweler siart cylch (Ffigwr 2 – Atodiad 3) NEU mae'n bosib cynnwys y siart cylch fel ffigwr yn yr aseiniad (e.e. Dangosa Ffigwr 2 farn athrawon am...

Trafod a dadansoddi'r data drwy wneud cyfeiriadau at yr adolygiad llenyddiaeth

Sonnir am nifer o strategaethau yn y cyfweiliad a holiadur. Dangoswyd siart cylch barn yr athrawon bod adnoddau'n ysgogi'r dysgu 'weithiau', felly nad oes modd dibynnu arnynt i ysbrydoli atebion safonol. Darparwyd i'r plant cynllun drilio sef safonau a phatrymau iaith i fodeli sut i ateb cwestiynau'n gywir. Ymhellach, ar ddechrau gwers gofynnwyd cwestiynau caeedig i gadarnhau'r wybodaeth flaenorol. Yng nghanol y wers gofynnwyd cwestiynau i sicrhau bod pawb yn deall disgwyliadau'r dasg. Erbyn y diwedd gofynnwyd cwestiynau agored i gadarnhau'r dysgu ac i gynllunio ar gyfer y gwersi nesaf. Dadleua Cotton (1988), mae cwestiynau ar lafar yn fwy effeithiol wrth feithrin dysgu na chwestiynau ysgrifenedig. Defnyddir rhaglenni technoleg megis; Kahoot, HWB, Google-Classroom i greu cwis ar-lein, oherwydd ei rhwyddineb ac nad oes disgwyliad i'r plant ateb ar lafar. Dywed Brown (2014, dyfynnwyd yn Simmonds, 2017) mae adfer gwybodaeth trwy gynnal cwis rheolaidd yn agwedd bwysig o gofio gwybodaeth. Defnyddir 'Class-Chats' i ddewis enwau ar hap, sylweddolwyd defnyddioldeb hyn i sicrhau bod pawb yn paratoi ateb. Un o'r strategaethau mwyaf poblogaidd oedd trafod mewn parau cyn bwydo nôl oherwydd mae'n codi hyder, a gweithio mewn timoedd i ychwanegu elfen gystadleuol. Dyweda Vygotsky (2012), dylai athrawon greu amgylchedd dysgu sy'n annog rhyngweithio trwy drafod i gynyddu gallu'r dysgwr. Yn debyg,

Casgliad

Bwriedir crynhoi'r canlyniadau a gafwyd o'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymchwiliad gan lunio casgliadau. Nod yr ymchwiliad oedd canfod beth oedd barn athrawon am gwestiynu fel modd o AagD. Dangosir yr astudiaeth defnyddioldeb triongl data i gymharu â chysylltu llenyddiaeth a data'r ymchwiliad.

Nodwyd nifer o gryfderau i gwestiynu fel strategaeth AagD yn y cyfweiliad a holiadur megis; mae modd asesu dealltwriaeth yn syth, mae gwahanol fathau o gwestiynau (agored/caeedig) ac mae amrywiaeth o strategaethau (technoleg, ar lafar, gwaith grŵp). Er nodwyd yr athrawon nifer o gryfderau mae rhai heriau. Un o'r heriau mwyaf amlwg oedd pryder plant, mae rhai dysgwyr yn anhyderus sy'n arwain at straen wrth ateb cwestiynau (Llywodraeth Cymru, 2010). Wrth ymchwilio nodwyd bod angen i athrawon drin ymatebion anghywir yn sensitif fel eu bod yn codi lefel yr her yn hytrach na lefel y straen (Hall, 2016). Sylweddolir pwysigrwydd lleihau'r pwysau pryd atgyfnerthwyd hanfodlonrwydd creu amgylchedd diogel gan yr athrawes yn ystod y cyfweiliad. Ymhellach, un o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r astudiaeth hon yw'r ffaith bod angen sicrhau gofyn cwestiynau safonol, wrth ymchwilio daeth yn amlwg er bod athrawon yn cwestiynu'n gyson gofynnwyd cwestiynau lefel is sydd ddim yn ddigon heriol i blant gyflawni ei botensial llawn (Hall, 2016). Ond, nodwyd yn y cyfweiliad hanfodlonrwydd cynllunio cwestiynau o flaenllaw gan ystyried gallu unigolion a defnyddio strategaethau megis trafod i alluogi'r plant i gael digon o amser meddwl. Er arddangoswyd heriau i gwestiynu darparwyd datrysiadau i'r sialensiau yma, awgryma'r canfyddiadau hyn, mai barn gyffredinol athrawon am gwestiynu fel strategaeth AagD yn gadarnhaol. Defnyddir yr astudiaeth yma i drawsnewid fy arfer proffesiynol yn y dosbarth. Deallir pwysigrwydd AagD i ddatblygiad plant, megis mae'n galluogi'r athrawes i baratoi ar gyfer gwersi'r dyfodol a chadw cofnod o gynnydd y disgyblion. Hefyd deallir bod asesu parhaus yn elfen graidd o addysgu

Llunio casgliadau drwy ystyried prif ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a'r data gyda'i gilydd

Trafodaeth ar effaith cynnal yr ymchwiliad ar eich dysgu proffesiynol – Nodi argymhellion ar gyfer trawsnewid eich ymarfer proffesiynol